Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion / Gwasanaethau Dydd |
| **SWYDD:** | Cynorthwyydd Gwasanaeth Dydd – Gyrrwr |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR05 |
| **YN ATEBOL I:** | Arweinydd Tîm |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Darparu cymorth a gofal personol i bobl ag anghenion cymhleth ac ymddygiad heriol sy'n derbyn gwasanaeth dydd yng Nghanolfan Adnoddau Pen-y-bont ar Ogwr neu'r Canolfannau Cymunedol.

Cyfrannu at weithredu a datblygu cynlluniau unigol ac amcanion gwasanaeth yn unol â datblygiadau ehangach mewn gwasanaethau Anabledd dysgu.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Cyfrannu at asesu sgiliau, cryfderau ac anghenion defnyddwyr gwasanaethau, gan adeiladu arnynt a mynd i'r afael ag anghenion fel y'u nodwyd.

- Cynorthwyo Swyddogion Gwasanaeth Dydd wrth hyrwyddo llesiant cyffredinol defnyddwyr gwasanaethau.

- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaethau â thasgau gofal personol a chorfforol.

- Annog defnyddwyr gwasanaeth i wneud dewisiadau hyddysg mewn perthynas â'r gweithgarwch y maent yn ymwneud ag ef.

- Cynorthwyo defnyddwyr gwasanaeth mewn amrywiaeth o leoliadau yn y ganolfan gwasanaeth a'r gymuned.

- Cyfrannu, datblygu a dilyn canllawiau ac asesiadau risg yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth unigol a'r amgylcheddau lle maent yn derbyn eu gwasanaeth.

- Cysylltu â theuluoedd, gofalwyr ac asiantaethau eraill dan gyfarwyddyd y Swyddog Gwasanaethau Dydd.

- Bydd yn ofynnol ichi yrru cerbyd gwasanaeth dydd er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau gymryd rhan mewn gweithgareddau a mynd i'w lleoliad gwasanaeth.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaethau IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

# Manyleb y Person

## Cynorthwyydd Gwasanaethau Dydd - Gyrrwr

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (√).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Diploma FfCCh Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion) Cymru a Gogledd Iwerddon neu barodrwydd i ennill y cymhwyster hwn. | Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio mewn amgylchedd gofal | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |
| | • Gwybodaeth am egwyddorion yr holl strategaethau cysylltiedig. | | |
| | • Profiad o weithio mewn lleoliad tîm. | Ydy | |
| | • Profiad o gadw cofnodion ysgrifenedig cywir o waith. | Ydy | |
| | • Profiad o drafod arian. | | |
| | • Dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu. | Ydy | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu ffurfio perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. Ffurflen gais a geirda |
| | • Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol | Ydy | |
| | • Gallu darparu gofal personol tra'n cadw urddas y Defnyddiwr Gwasanaeth | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Gallu cynnig cymorth i unigolion mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd | | |
| | • Gallu derbyn cyfarwyddyd. | | |
| | • Gallu dangos sgiliau trefnu da | Ydy | |
| | • Gallu meddwl yn glir | | |
| | • Gallu gweithio'n hyblyg ac yn rhagweithiol | Ydy | |
| | • Trwydded yrru | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg | | |